**Nodiadau Athrawon**

**YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**
**Drwy ddysgu am Roi Organau fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;
- Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;
- Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;
- Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd**.**

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**
**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:**

- Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio
- Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau
- Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain
- Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain
- Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes
- Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol
- Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt
- Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd
- Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt

**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**
**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:**

- Chwilio am ystyr a diben;
- Y byd naturiol a phethau byw;
- Hunaniaeth a pherthyn;
- Awdurdod a dylanwad;
- Perthnasoedd a chyfrifoldeb;
- Gwerthoedd a moeseg;
- Taith bywyd;

Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y

mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.

**Dolenni Defnyddiol:**
**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance
**Canllawiau Dyniaethau Hwb** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities
**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/
**Themâu Trawsgwricwlaidd** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes

**Erthygl 1**
**Cyffredinol**

**Trafodaethau**

- Mae stori'r 'Bentley' yn 'ddameg' neu'n foeswers addas. Oes rhywun yn gwybod am stori o un o'r crefyddau'r byd sydd yn cyfeirio at 'drysor'?

- Y datganiad olaf sy'n sbarduno trafodaeth, e.e. 'sbwriel neu drysor?'.

- Cysylltiadau trawsgwricwlaidd - beth mae'r adran fywydeg yn ei wneud wrth drafod organau? Sut mae'r adran fywydeg yn addysgu 'gwerth' yr organau i'r corff? Dadleuon o blaid ac yn erbyn trawsblannu. Gwneud y cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol a phynciau eraill.

**Gwaith Cartref: darllen Erthygl 1**

1. Ysgrifennu rhestr. Petai dân yn eu cartref pa 'drysorau' fyddai'r disgyblion yn ceisio eu harbed? Trafod y rhestrau ymhellach mewn grwpiau. Egluro pam fod y 'trysorau' hyn mor werthfawr iddynt. Ceisio blaenoriaethu a lleihau'r rhestr? Trafod ai gwerth ariannol sydd i'r trysorau yn unig? Beth sydd yn eu gwneud yn drysorau?
2. Gwaith Cartref: holi 5 o bobl a ydynt wedi ymateb i'r cyfle i optio allan mewn perthynas â chydsyniad tybiedig, a'r rheswm dros wneud neu beidio gwneud. Cofnodi'r canlyniadau.
3. Llunio logo Cymraeg ar gyfer yr ymgyrch Rhoi Organau (o chwilio ar y Rhyngrwyd ceir enghreifftiau o'r hyn sydd eisoes ar gael yn Saesneg).
4. Ysgrifennu disgrifiad o'r ailgylchu sy'n digwydd yn eu cartref hwy. Pa mor aml a thrafferthus yw'r casgliadau ailgylchu. A wneir defnydd o Ganolfannau Ailgylchu? Os nad yw'r cartref yn ailgylchu eisoes, gofyn i'r disgybl lunio rhestr gweithredu er mwyn dechrau ailgylchu.
5. Mewn rhai ysgolion bydd gan yr Adran Fywydeg fodelau o'r gwahanol organau a'u lleoliad o fewn y corff. Mae dangos y rhain yn gyfle i drafod pa organau y mae'n bosib eu trawsblannu

ar hyn o bryd.
6. Cofnodi mewn paragraff byr beth yw eu barn bersonol wedi darllen erthygl 1- a fyddent yn barod i roi organau neu a fyddent am optio allan. Yna wedi darllen yr erthyglau canlynol ysgrifennu paragraff eto i nodi a yw eu barn wedi newid a pam.
7. Trafodaeth: a yw'n iawn ystyried gwerthu/prynu organau? Beth yw manteision a pheryglon hynny?

**Erthygl 2**

**Cyffredinol**

Er nad yw'r erthygl hon yn grefyddol yn ei hanfod (mae'r ddwy erthygl arall yn y triawd yn rhoi sylw i agweddau'r crefyddau at y pwnc, gwerth y corff/organau ac ati) y mae nifer o agweddau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn berthnasol yma; e.e.

1. Yr ysbrydol - 'hanfod yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddynol, sy'n archwilio gwerthoedd cyffredin, hunaniaeth, gwerth personol .. cariad, ffyddlondeb a daioni'

2. Y moesol - 'archwilio gwerthoedd ac agweddau cyffredin'

3. Y diwylliannol - 'yr angen i fodau dynol gael synnwyr o hunaniaeth ddiwylliannol, perthyn a phwrpas, a fu'n amlwg yng Nghymru drwy'r ffordd y mae crefydd a diwylliant wedi cydblethu'

4. Y meddyliol - 'heriau deallusol cynnal ymchwil, gwerthuso tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, cyfiawnhau safbwyntiau a theorïau'

5. Y corfforol - 'gweithgaredd corfforol sy'n ymateb yn ymarferol i anghenion eraill ac yn arddangos gweithrediad (cymdeithasol) cyfrifol a ffordd gadarnhaol o fyw'

Mae'r gwaith yn cyffwrdd ar:

1. Y cwestiynau sylfaenol - chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd
2. Ymatebion personol - cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau â phrofiadau'r disgyblion eu hunain a chaniatáu datblygu ymatebion personol
4. Pwrpas bywyd - dadleuon cyfoes ynglŷn â tharddiad, diben a sancteiddrwydd bywyd, cymryd cyfrifoldeb am y byd naturiol a phethau byw
5. Profiad dynol - y farn bod gan fodau dynol statws unigryw ymysg pethau byw a goblygiadau'r gred hon ar ymddygiad dynol, gwerthoedd rhyddid, cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth
6. Perthnasoedd a chyfrifoldeb - gwneud penderfyniadau moesol anodd
7. Sgiliau - ffurfio dadleuon a chyfiawnhau safbwyntiau, gwerthfawrogi a pharchu safbwyntiau eraill, ymchwilio.

**Tasgau:**

1. "Y mae gwybod barn aelodau'r teulu yn hanfodol ar gyfer cynyddu nifer yr organau sy'n cael

eu rhoi.” Trafodwch hyn gan roi sylw i farn y Cynulliad a theulu Rhys Meirion.

2. Yr unig wlad lle nad oes prinder organau yw Iran. Dyma’r unig wlad yn y byd lle mae’n gyfreithlon i werthu organau. Beth yw eich barn am hyn? Gwnewch ychydig o ymchwil i’r hyn sy’n digwydd yn Iran gan wneud pwyntiau ar beryglon posib y fath gynllun. Paratowch ddadl dros ac yn erbyn gwerthu organau.

3. Lluniwch holiadur er mwyn darganfod pa mor ymwybodol ydyw pobl o’r drefn rhoi organau yng Nghymru ers 1 Rhagfyr 2015. Byddai’n bosib ychwanegu cwestiynau ar farn pobl hefyd. Rhannwch yr holiadur rhwng 20 o bobl a gwnewch graff neu siart i ddangos y canlyniadau.

4. Ymchwiliwch i’r cyfraddau trawsblannu mewn gwledydd lle mae pobl yn optio allan (e.e. Cymru, Sbaen, Portiwgal, Gwlad Belg, Ffrainc) a gwledydd lle mae pobl yn optio i mewn (e.e. Lloegr, yr Iseldiroedd. Unol Daleithiau America, yr Almaen). I ba raddau mae hyn yn effeithio ar nifer y trawsblaniadau? Ydy’r canlyniadau yn debyg i’r disgwyl?

5. Y mae Rhys Meirion wedi gwneud llawer o waith elusennol yn y maes iechyd dros y blynyddoedd. Ymchwiliwch i waith elusennol a wnaeth ef ac eraill yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

6. Lluniwch boster er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r angen i roi organau i achub bywydau eraill. Gofalwch gynnwys lluniau i ddangos pa organau sy’n cael eu trawsblannu.

7. Ewch i safle **www.organdonationwales.org**. Cliciwch ar ‘Eich Straeon. Darllenwch rhai o’r hanesion a nodwch wybodaeth gryno am dri ohonynt er mwyn adrodd yn ôl i weddill y dosbarth.

8. I ba raddau y credwch y dylid creu cysylltiad rhwng teuluoedd rhoddwyr a derbynwyr organau. Gwnewch dabl o bwyntiau dros ac yn erbyn. Byddai’n bosib datblygu’r pwyntiau’n ddadl dosbarth gyda siaradwyr o blaid ac yn erbyn.

9. A ddylai’r llywodraeth gael yr hawl i ddefnyddio’ch organau? Rhodd neu ased?

**Erthygl 3**

**Cyffredinol**

Mae’r erthygl yn sôn am bwnc moesol cyfoes a chymhleth sydd yn berthnasol iawn i ni yng Nghymru oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i newid y ffordd y mae caniatâd i ddefnyddio organau yn cael ei roi. Bwriad yr erthygl yw codi ymwybyddiaeth o rai o’r ffactorau sy’n effeithio ar aelodau o dri o brif grefyddau’r byd wrth iddynt benderfynu cefnogi rhoi, a thrawsblannu organau ai peidio.

Fel y gwelir mai peth tensiwn o fewn rhai crefyddau ynglŷn â’r mater. Mae ymgais yn yr erthygl

hefyd i gysylltu cred ac arfer a dyna pam y cyfeirir at sylfaenwyr, arweinwyr a llyfrau sanctaidd y crefyddau a drafodir. Mae sawl ffordd y gellir defnyddio'r erthygl gyda dosbarth. Nid yw'r canlynol ond awgrymiadau arwynebol y gellir eu datblygu ymhellach.

**Tasgau:**

1. Gellir gofyn i'r disgyblion ddarllen yr erthygl ac yna mewn parau osod y dadleuon o blaid yn nhrefn blaenoriaeth. Pa rai yn eu tyb hwy yw'r cryfaf? Pa rai yw'r wanaf? A pha rai y maent yn cytuno? Gallent wedyn ffurfio grŵp gyda phâr arall i rannu'i syniadau.
2. Yn wahanol i'r uchod gellir gofyn i'r disgyblion ganolbwyntio ar y dadleuon yn erbyn. Mewn parau gallent drafod eu barn ynglŷn â rhain - a ydynt yn ddadleuon cryf? Os nad ydynt pam?
3. Gellir gofyn i'r disgyblion ddychmygu eu bod yn Fwslimiaid sydd o blaid rhoi organau ac ysgrifennu deialog lle maent yn ceisio argyhoeddi Mwslim sydd ag amheuon mai dyna'r peth cywir i'w wneud.
4. Gellir defnyddio dull 'sedd boeth' a rhannu'r dosbarth yn grwpiau yn cynrychioli'r tair crefydd.
5. Gellir rhannu'r dosbarth yn ôl y tair crefydd a gofyn iddynt lunio eitem newyddion, teledu neu radio yn cyflwyno barn y gwahanol grefyddau ar y mater yma.
6. Fel gwaith cartref gellir gofyn iddynt ymchwilio ymhellach i farn unrhyw un o brif grefyddau'r byd ar y mater yma a gwneud cyflwyniad 5-10 munud i weddill y dosbarth.
7. Byddai modd gwahodd cynrychiolydd o'r byd meddygol a/neu gynrychiolwyr o'r gwahanol grefyddau i drafod y mater ymhellach gyda'r disgyblion a rhoi cyfle iddynt eu holi.

**Podlediadau**

Gall cynnwys y tri yma ysgogi trafodaethau/tasgau lle bydd John Roberts (BBC Cymru) yn trafod rhoi organau:

Sgwrs 1 : Barry Morgan (Archesgob Cymru) yn erbyn y Llywodraeth *(00:59 - 05:33)*.

Sgwrs 2 : Bryn Williams o blaid y ddeddfwriaeth *(05:33 - 08:37)*

Sgwrs 3 : Dr Dai Lloyd ac Ann Ruska yn siarad am safbwynt meddygol. *(08:37 - 15:04)*

**Clipiau Fideo**

Bwriad y clipiau yma eto yw ysgogi trafodaethau a thasgau ymysg disgyblion:

Clip 1 - *Effaith ac Ymateb* - cefnogi teulu'r rhai sy'n rhoi organau - ac ymateb y rhai sy'n derbyn

Clip 2 - *Cymryd a Rhoi* - y dyfodol ar ôl derbyn organau. Y rhai sydd wedi derbyn organau yn trafod

eu profiadau a’u teimladau, ac effaith y ddeddf newydd.

**Dolenni cyswllt**

https://www.organdonation.nhs.uk/about-donation/what-does-my-religion-say/

http://www.donorrecovery.org/learn/religion-and-organ-donation

http://www.organtransplants.org/understanding/religion/